



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 Rhif 1268 (Cy.115)

2009 No. 1268 (W.115)

PRIFFYRDD, CYMRU

HIGHWAYS, WALES

Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau
am Feddiannaeth a Ymestynnir yn
Afresymol ar y Briffordd) (Cymru)
2009

The Street Works (Charges for
Unreasonably Prolonged
Occupation of the Highway)
(Wales) Regulations 2009

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwneud taliadau i awdurdodau priffyrdd pan fydd rhai mathau o waith stryd, a gyflawnir gan ymgymerwyr ar briffyrdd y gellir eu cynnal, yn cael eu hystyn yn afresymol.

These Regulations provide for the payment of charges to highway authorities where certain street works, executed by undertakers in maintainable highways, are unreasonably prolonged.

Mae *Rheoliadau 5(1) a 5(2)* yn ei gwneud yn ofynnol ar ymgymerydd, wrth iddo gyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi yn rhinwedd Rheoliad 4, i gyflwyno "hysbysiad o gychwyniad gwirioneddol ar waith" o fewn y cyfnodau a nodwyd. Mae *Rheoliad 5(3) a (4)* yn pennu'r cyfnod oddi mewn i'r hwn y mae'n rhaid cyflwyno "hysbysiad o fod yn glir o waith" yn dilyn cwblhau adferiad dros dro o'r briffordd, a'r cyfnod oddi mewn i'r hwn y mae'n rhaid cyflwyno "hysbysiad o gwblhau gwaith" yn dilyn adferiad parhaol.

Regulation 5(1) and (2) require an undertaker, executing street works in a highway to which these Regulations apply by virtue of regulation 4, to give an "actual start of works notice" within the periods set out. *Regulation 5(3) and (4)* specify the period within which a "works clear notice" must be given following the completion of an interim reinstatement of the highway and within which a "works closed notice" must be given following permanent reinstatement.

Mae *Rheoliad 6* yn sefydlu'r "cyfnod rhagnodedig" at ddibenion adran 74(1)(a) o Ddeddf 1991, ac mae *Rheoliad 7* yn pennu pa bryd y mae gwaith yn dod i ben at ddiben cyfrifo unrhyw daliadau am or-redeg.

Regulation 6 establishes the "prescribed period" for the purposes of section 74(1)(a) of the 1991 Act and *regulation 7* specifies when works end for the purpose of calculating any overrun charges.

Mae *Rheoliad 8* yn pennu'r taliadau sy'n daladwy pan fo hyd gwaith stryd yn fwy na naill ai'r cyfnod rhagnodedig neu gyfnod rhesymol, pa un bynnag fo'r hwyaf, yn ddarostyngedig i rai esemptiadau. Bydd gwahanol gyfraddau dyddiol yn weithredol, gan ddibynnu ar categori'r gwaith stryd a'r math o stryd y mae'n cael ei gyflawni arni. Pan fo gwaith adfer yn cael ei gyflawni, codir tâl am unrhyw or-redeg fel pe bai'r gwaith hwnnw yn yr amategori â'r gwaith sy'n cael ei gywiro. At y diben hwn, darperir ar gyfer trin gwaith

Regulation 8 prescribes the charges payable where the duration of street works exceeds the longer of the prescribed period or a reasonable period, subject to certain exemptions. Different daily rates will apply depending upon the category of street works and the type of street in which they are carried out. Where remedial works are carried out, any overrun will be charged as if those works were in the same category as the works being remedied. For this purpose, provision is made for treating older works as being within

hŷn fel gwaith sydd oddi mewn i gategorïau cyfoes gwaith stryd. Pan na fuasai hyd y gwaith wedi gorreddeg oni bai am bresenoldeb un eitem arwyddo, goleuo neu warchod, bydd y taliad a godir yn daliad sengl o £100 ar yr amod bod yr ymgymerydd yn symud yr eitem ymaith o fewn y terfyn amser penodedig yn dilyn cais gan yr awdurdod priffyrdd iddo wneud hynny. Darperir ar gyfer gostwng neu hepgor taliad mewn amryfal achosion.

Mae *Rheoliadau 9 a 10*, nad ydynt yn gymwys pan fo gofyn caniatâd i gyflawni gwaith stryd, yn galluogi ymgymerydd i gyflwyno i'r awdurdod priffyrdd, dan rai amgylchiadau, amcangyfrif neu amcangyfrif diwygiedig o hyd y gwaith, ac maent yn darparu bod modd cymryd bod yr hyd hwnnw wedi ei gytuno fel cyfnod rhesymol oni cheir gwrthwynebiad.

Mae *Rheoliad 11* yn darparu ar gyfer rhoi taliadau mewn grym a chadw cyfrifon. Mae *Rheoliad 12* yn creu trosedd o fethu â chyflwyno unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol gan y *Rheoliadau*.

Mae *Rheoliadau 13 a 14* yn pennu ffurf unrhyw hysbysiad a'r modd y mae'n rhaid ei gyflwyno.

Mae asesiad o'r effaith y caiff yr offeryn hwn ar gostau'r sector busnes a'r sector cyhoeddus ar gael gan .

contemporary categories of street works. Where the duration of works would not have overrun but for the presence of a single item of signing, lighting or guarding, the charge will consist of a single payment of £100 provided the undertaker removes it within the specified time limit following the highway authority's request to do so. Provision is made for the reduction or waiver of a charge in various cases.

Regulations 9 and 10, which do not apply where a permit to carry out street works is required, enable an undertaker to provide the highway authority, in certain circumstances, with an estimate or revised estimate of the duration of works, which may be taken to be agreed as a reasonable period in the absence of an objection.

Regulation 11 provides for the application of charges and the keeping of accounts. *Regulation 12* creates an offence of failing to give any notice required by the *Regulations*.

Regulations 13 and 14 prescribe the form of any notice and the manner in which it must be served.

An impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business and the voluntary sector is available from (insert web address).

2009 Rhif 1268 (Cy.115)

PRIFFYRDD, CYMRU

**Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau
am Feddiannaeth a Ymestynnir yn
Afresymol ar y Briffordd) (Cymru)
2009**

Gwnaed 19 Mai 2009

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 22 Ebrill 2009

Yn dod i rym 1 Mehefin 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 74, 97 a 104(1) a (3) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(1), ac a drosglwyddwyd ar ôl hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannaeth a Ymestynnir yn Afresymol ar y Briffordd) (Cymru) 2009. Deuant i rym ar 1 Mehefin 2009 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(1) 1991 p.22. Cafodd adran 74 ei diwygio gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p.38), adran 256, Atodlen 31, Rhan V, a chan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18), adrannau 40(4) a 52.

(2) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 74, 97 a 104 wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru, cyn belled ag y bônt yn arferadwy o ran Cymru. Cafodd y swyddogaethau hynny eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2, Atodlen 1. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), cawsant eu trosglwyddo i Weiniogion Cymru.

2009 No. 1268 (W.115)

HIGHWAYS, WALES

**The Street Works (Charges for
Unreasonably Prolonged
Occupation of the Highway)
(Wales) Regulations 2009**

Made 19 May 2009

*Laid before the National
Assembly for Wales* 22 April 2009

Coming into force 1 June 2009

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 74, 97 and 104(1) and (3) of the New Roads and Street Works Act 1991(1), subsequently transferred to the National Assembly for Wales, and now vested in them (2), make the following Regulations:

Title, commencement and application

1. The title of these Regulations is the Street Works (Charges for Unreasonably Prolonged Occupation of the Highway) (Wales) Regulations 2009. They come into force on 1 June 2009 and apply in relation to Wales.

(1) 1991 c.22. Section 74 was amended by the Transport Act 2000 (c.38), section 256, Schedule 31, Part V and by the Traffic Management Act 2004 (c.18), sections 40(4) and 52.

(2) The functions of the Secretary of State under sections 74, 97 and 104 are, so far as exercisable in relation to Wales, vested in the Welsh Ministers. Those functions were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2, Schedule 1. By virtue of paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), they were transferred to the Welsh Ministers.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adeg sydd yn sensitif i draffig" ("*traffic-sensitive time*"), o ran stryd sydd yn sensitif i draffig, yw—

- (a) yr amseroedd neu'r dyddiadau sydd wedi eu pennu yn achos dynodiad cyfyngedig; a
- (b) unrhyw adeg mewn unrhyw achos arall;

ystyr "Awdurdod Trwyddedau" ("*Permit Authority*") yw—

- (a) awdurdod priffyrdd lleol y gwnaed gorchymyn mewn perthynas ag ef o dan adran 34(4) o Ddeddf 2004; neu
- (b) Gweinidogion Cymru, fel awdurdod priffyrdd, y gwnaed gorchymyn mewn perthynas â hwy o dan adran 35(2) o'r Ddeddf honno,

sydd yn gweithredu cynllun trwyddedau;

ystyr "categori ffordd" ("*road category*") yw un o'r categorïau ffordd a bennir ym mharagraff 1.3.1 o Bennod S1 o'r cod ymarfer sy'n dwyn y teitl "Manyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd", sy'n ddyddiedig Tachwedd 2006(1) ac a gymeradwyd gan Weinidogion Cymru ar 7 Tachwedd 2006, fel y mae wedi ei ddiwygio neu ei ailgyhoeddi o bryd i'w gilydd;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(2);

ystyr "cyfeiriad" ("*address*"), mewn perthynas â dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig, yw unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion dull trosglwyddo o'r fath;

(1) Ar gael yn <http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/highwales/2006/SpecificationReinstatementHighwa?lang=cy>

(2) 2000 p.7. Cafodd Adran 15(1) ei diwygio gan Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21), adran 406(1) ac Atodlen 17, paragraff 158.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 1984 Act" ("*Deddf 1984*") means the Road Traffic Regulation Act 1984(1);

"the 1991 Act" ("*Deddf 1991*") means the New Roads and Street Works Act 1991;

"the 1992 Regulations" ("*Rheoliadau 1992*") means the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) Regulations 1992(2);

"the 2004 Act" ("*Deddf 2004*") means the Traffic Management Act 2004(3);

"address" ("*cyfeiriad*"), in relation to a particular method for transmitting an electronic communication, means any number or address used for the purposes of such method of transmission;

"bridleway" ("*llwybr ceffylau*"), "footpath" ("*llwybr troed*") and "footway" ("*troedffordd*") have the meaning given in section 329(1) of the Highways Act 1980(4);

"day" ("*diwrnod*") means a working day;

"electronic communication" ("*cyfathrebiad electronig*") has the meaning given in section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(5);

"immediate works" ("*gwaith di-oad*") means urgent works or emergency works(6);

(1) 1984 c.27. Sections 1,6 and 9 were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17, 21 and 23 and modified by the Tramcars and Trolley Vehicles (Modification of Enactments) Regulations 1992 (S.I. 1992/1217) ("the Tramcars Regulations"). Sections 1 and 6 were also amended by the Environment Act 1995 (c.25), section 120 and Schedule 22, paragraph 36. Section 1 was also amended by the Transport Act 2000, section 161 and Schedule 11, paragraphs 6 and 7. Sections 6 and 9 were amended by the Local Government Act 1985 (c.51), section 8 and Schedule 5, paragraph 4 and section 9 was also amended by the Road Traffic Act 1991 (c.27), section 48 and Schedule 4, paragraph 24. Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1 and modified by the Tramcars Regulations.

(2) S.I. 1992/2985; as amended by S.I. 1995/990 and 2128 and 1999/1049. The 1992 Regulations were dis-applied as respects Wales by the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) (Wales) (No. 2) Regulations 2008 (S.I. 2008/540 (W.52)), regulation 2, subject to transitional arrangements contained in regulation 19.

(3) 2004 c.18.

(4) 1980 c.66.

(5) 2000 c.7. Section 15(1) was amended by the Communications Act 2003 (c.21), section 406(1) and Schedule 17, paragraph 158.

(6) See section 52 of the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22) for the definition of "emergency works".

ystyr "cyfnod rhagnodedig" ("*prescribed period*") yw'r cyfnod a ragnodir gan reoliad 6;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004(2);

ystyr "diwrnod" ("*day*") yw diwrnod gwaith;

ystyr "dynodiad cyfyngedig" ("*limited designation*") yw dynodiad yn unol â rheoliad 16(3) o Reoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008(3), ar gyfer amseroedd penodol neu ar ddyddiadau penodol;

ystyr "echel safonol" ("*standard axle*") yw echel sy'n rhoi grym o 80 cilo Newton;

ystyr "y Fanyleb Dechnegol" ("*the Technical Specification*") yw'r Fanyleb Dechnegol ar gyfer Trosglwyddiad Electronig o Hysbysiadau a gynhyrchwyd gan yr Adran Drafnidiaeth ac sy'n ddyddiedig Rhagfyr 2008, fel y caiff ei diwygio neu ei hailgyhoeddi o bryd i'w gilydd;(4)

ystyr "gorchymyn cynllunio ar gyfer cerddwyr" ("*pedestrian planning order*") yw gorchymyn a wnaed o dan adran 249(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(5);

ystyr "gorchymyn traffig" ("*traffic order*") yw gorchymyn a wnaed o dan adran 1 neu 9 o Ddeddf 1984;

mae "gwaith adfer" ("*remedial works*") yn waith a gyflawnir o dan adran 72(3) o Ddeddf 1991;

mae "gwaith brys" ("*urgent works*")—

(a) yn golygu gwaith stryd, ar wahân i waith argyfwng, y mae gofyn ei gyflawni ar yr adeg y caiff ei gyflawni (neu y mae'r sawl sy'n

"limited designation" ("*dynodiad cyfyngedig*") means a designation in accordance with regulation 16(3) of the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations) (Wales) (No.2) Regulations 2008(1), for particular times or on particular dates;

"major works" ("*gwaith mawr*") means—

(a) street works which have been identified in the annual operating programme of an undertaker, or which, though not specifically identified in such programme, would normally be planned or known about at least six months in advance of the date proposed for the works;

(b) street works, other than immediate works, where—

(i) the street authority has indicated to an undertaker, or

(ii) the undertaker considers,

that an order under section 14 of the 1984 Act (temporary prohibition or restriction on roads) is required; or

(c) street works, other than immediate works, the planned duration of which exceeds ten days;

"minor works" ("*mân waith*") means, save as provided in regulation 8(8), street works, other than immediate works or major works, the planned duration of which does not exceed three days;

"pedestrian planning order" ("*gorchymyn cynllunio ar gyfer cerddwyr*") means an order made under section 249(2) of the Town and Country Planning Act 1990(2);

"permit" ("*trwydded*") and "permit scheme" ("*cynllun trwyddedau*") are to be construed in accordance with section 32 of the 2004 Act;

"Permit Authority" ("*Awdurdod Trwyddedau*") means—

(a) a local highway authority in respect of which an order has been made under section 34(4) of the 2004 Act; or

(1) 1984 p.27. Cafodd adrannau 1, 6 a 9 eu diwygio gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 17, 21 a 23, a'u haddasu gan Reoliadau Tramiau a Cherbydau Trolï (Addasu Deddfiadau) 1992 (O.S. 1992/1217) ("y Rheoliadau Tramiau"). Cafodd adrannau 1 a 6 eu diwygio'n ogystal gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 120 ac Atodlen 22, paragraff 36. Cafodd adran 1 ei diwygio'n ogystal gan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, adran 161 ac Atodlen 11, paragraffau 6 a 7.. Cafodd adrannau 6 a 9 eu diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), adran 8 ac Atodlen 5, paragraff 4, a chafodd adran 9 ei diwygio'n ogystal gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.27), adran 48 ac Atodlen 4, paragraff 24. Cafodd adran 14 ei hamnewid gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1 a'i haddasu gan y Rheoliadau Tramiau.

(2) 2004 p.18.

(3) O.S. 2008/540 (Cy.52).

(4) Mae hon ar gael o www.dft.gov.uk.

(5) 1990 p.8. Cafodd adran 249(2) ei diwygio gan Ddeddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999 (p.29), adran 270, Atodlen 22, paragraff 5.

(1) S.I. 2008/540 (W.52).

(2) 1990 c.8. Section 249(2) was amended by the Greater London Authority Act 1999 (c.29), section 270, Schedule 22, paragraph 5.

gyfrifol am y gwaith yn credu ar sail resymol fod gofyn hynny)—

- (i) er mwyn atal neu roi terfyn ar doriad anghynlluniedig ar unrhyw gyflenwad neu wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan ymgymerydd;
- (ii) er mwyn osgoi colled sylweddol i ymgymerydd mewn perthynas â gwasanaeth presennol; neu
- (iii) er mwyn ailgysylltu cyflenwadau neu wasanaethau pan fyddai gan ymgymerydd atebolrwydd sifil neu droseddol pe bai'r ailgysylltu'n cael ei ohirio tan ar ôl i'r cyfnod hysbysiad priodol ddod i ben; a

(b) yn cynnwys gwaith na ellir ei wahanu'n rhesymol oddi wrth waith o'r fath.

ystyr "gwaith di-oed" ("*immediate works*") yw gwaith brys neu waith argyfwng⁽¹⁾;

ystyr "gwaith mawr" ("*major works*") yw—

- (a) gwaith stryd sydd wedi ei nodi yn rhaglen weithredu flynyddol ymgymerydd, neu a fuasai fel rheol yn gynlluniedig ac yn hysbys o leiaf chwe mis cyn dyddiad arfaethedig y gwaith, er nad oedd wedi ei nodi'n benodol mewn rhaglen o'r fath;
- (b) gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed—
 - (i) pan fo'r awdurdod strydoedd wedi dangos i ymgymerydd, neu
 - (ii) pan fo'r ymgymerydd o'r farn,

fod gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf 1984 (gwaharddiad dros dro neu gyfyngiad ar ffyrdd) yn angenrheidiol; neu

(c) gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed, y mae ei hyd arfaethedig yn fwy na deng niwrnod;

ystyr "gwaith safonol" ("*standard works*"), ac eithrio fel y darperir yn rheoliad 8(8), yw gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed neu waith mawr, y mae ei hyd arfaethedig yn fwy na thri diwrnod ond yn ddim mwy na deng niwrnod;

mae i "llwybr ceffylau", "llwybr troed" a "troedffordd" yr ystyron a roddir i "bridleway", "footpath" a "footway" yn adran 329(1) o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽²⁾;

ystyr "mân waith" ("*minor works*"), ac eithrio fel y darperir yn rheoliad 8(8), yw gwaith stryd, ar wahân i waith di-oed neu waith mawr, y mae ei hyd arfaethedig yn ddim mwy na thri diwrnod;

(b) the Welsh Ministers, as a highway authority, in respect of whom an order has been made under section 35(2) of that Act,

giving effect to a permit scheme;

"prescribed period" ("*cyfnod rhagnodedig*") means the period prescribed by regulation 6;

"remedial works" ("*gwaith adfer*") are works carried out under section 72(3) of the 1991 Act;

"road category" ("*categori ffordd*") means one of the road categories specified in paragraph 1.3.1 of Chapter S1 of the code of practice entitled "Specification for the Reinstatement of Openings in Highways" dated November 2006⁽¹⁾ and approved by the Welsh Ministers on 7 November 2006, as revised or re-issued from time to time;

"standard axle" ("*echel safonol*") means an axle which exerts a force of 80 kilo Newtons;

"standard works" ("*gwaith safonol*") means, save as provided in regulation 8(8), street works, other than immediate works or major works, the planned duration of which exceeds three days but does not exceed ten days;

"statutory undertaker" ("*ymgymerydd statudol*") means a person entitled by virtue of a statutory right to carry out street works;

"the Technical Specification" ("*y Fanyleb Dechnegol*") means the Technical Specification for the Electronic Transfer of Notifications produced by the Department for Transport and dated December 2008, as revised or re-issued from time to time;⁽²⁾

"traffic order" ("*gorchymyn traffig*") means an order made under section 1 or 9 of the 1984 Act;

"traffic-sensitive street" ("*stryd sydd yn sensitif i draffig*") means a street designated as traffic-sensitive under section 64 of the 1991 Act;

"traffic-sensitive time" ("*adeg sydd yn sensitif i draffig*"), in relation to a traffic-sensitive street, means—

- (a) the times or dates specified in the case of a limited designation; and
- (b) any time in any other case; and

"urgent works" ("*gwaith brys*")

(a) means street works, other than emergency works, whose execution at the time when they are executed is required (or which the person

⁽¹⁾ *Gweler* adran 52 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) am y diffiniad o "waith argyfwng" ("emergency works").

⁽²⁾ 1980 p.66.

⁽¹⁾ Available at <http://wales.gov.uk/legislation/subordinate/nonsi/highwales/2006/SpecificationReinstatementHighwa?lang=en>

⁽²⁾ This is available at www.dft.gov.uk

ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992(1);

ystyr "stryd sydd yn sensitif i draffig" ("*traffic-sensitive street*") yw stryd sydd wedi ei dynodi'n un sensitif i draffig o dan adran 64 o Ddeddf 1991;

mae "trwydded" ("*permit*") a "cynllun trwyddedau" ("*permit scheme*") i gael eu dehongli yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2004; ac

ystyr "ymgymerydd statudol" ("*statutory undertaker*") yw person sydd â'r hawl, yn rhinwedd hawl statudol, i gyflawni gwaith stryd.

Trefniadau trosiannol

3. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i waith stryd yng Nghymru pan fo ymgymerydd wedi cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 54(1), 55(1) neu 57 o Ddeddf 1991 cyn y dyddiad y deuant i rym(2).

Cymhwysu'r Rheoliadau

4. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bob priffordd y gellir ei chynnal, ar wahân i lwybr troed, llwybr ceffylau, priffordd y mae gorchymyn cynllunio ar gyfer cerddwyr mewn grym mewn perthynas â hi, a phriffordd y mae gorchymyn traffig yn gwahardd defnydd ohoni gan draffig cerbydol, oni bai bod y gwaharddiad mewn grym ar adegau penodol yn unig.

Hysbysiadau

5.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o gychwyniad y gwaith hwnnw i'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd honno, gan nodi'r stryd y mae'r gwaith i'w gyflawni ynddi ("*hysbysiad o gychwyniad gwirioneddol ar waith*"), ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cychwynnir y gwaith.

(2) Pan fo gwaith yn cael ei gyflawni o dan drwydded sydd wedi ei chaniatáu gan Awdurdod Trwyddedau mewn stryd sydd yn sensitif i draffig neu mewn stryd yng nghategori ffordd 0, 1 neu 2 nad yw'n

responsible for the works believes on reasonable grounds to be required)—

- (i) to prevent or put an end to an unplanned interruption of any supply or service provided by an undertaker;
 - (ii) to avoid substantial loss to an undertaker in relation to an existing service; or
 - (iii) to reconnect supplies or services where an undertaker would be under a civil or criminal liability if the reconnection is delayed until after the expiry of the appropriate notice period; and
- (b) includes works which cannot reasonably be severed from such works.

Transitional arrangements

3. These Regulations do not apply to street works in Wales in respect of which an undertaker has given notice under section 54(1), 55(1) or 57 of the 1991 Act before the date on which they come into force(1).

Application of Regulations

4. These Regulations apply to every maintainable highway, other than a footpath, a bridleway, a highway in relation to which a pedestrian planning order is in force and a highway whose use by vehicular traffic is prohibited by a traffic order, unless that prohibition is in force only at particular times.

Notices

5.—(1) Subject to paragraph (2), an undertaker executing street works in a highway to which these Regulations apply must give the highway authority for that highway, notice in writing of the beginning of those works specifying the street in which the works are to be carried out ("*actual start of works notice*") not later than the end of the next day following the date on which the works begin.

(2) Where works are executed under a permit granted by a Permit Authority in a traffic-sensitive street or in a street in road category 0, 1 or 2 which is not a traffic-sensitive street, the period within which

(1) O.S. 1992/2985; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/990 a 2128 a 1999/1049. Cafodd Rheoliadau 1992 eu datgymhwyso o ran Cymru gan Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2008 (O.S. 2008/540 (Cy.52)), rheoliad 2, yn ddarostyngedig i drefniadau trosiannol sydd wedi eu cynnwys yn rheoliad 19.

(2) Cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, mae darpariaethau Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) (Cymru) (Rhif 2) (O.S. 2008/540) yn gymwys.

(1) Prior to these Regulations coming into force, the provisions of the Street Works (Registers, Notices, Directions and Designations (Wales) (No. 2) Regulations 2008 (S.I. 2008/540) apply.

stryd sydd yn sensitif i draffig, y cyfnod y mae'n rhaid i'r hysbysiad o gychwyniad gwirioneddol ar waith gael ei gyflwyno oddi mewn iddo yn unol â pharagraff (1) fydd y cyfnod sy'n gymwys yn rhinwedd paragraff 16.7 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Trwyddedau dyddiedig Mehefin 2009.(1), fel y caiff ei ddiwygio neu ei ailgyhoeddi o bryd i'w gilydd.

(3) Pan fydd ymgymerydd—

- (a) wedi cwblhau adferiad dros dro o briffordd;
- (b) wedi symud ymaith—
 - (i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a
 - (ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac
- (c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus,

rhaid i'r ymgymerydd hwnnw hysbysu'r awdurdod priffyrdd fod hyn wedi ei wneud ("hysbysiad o fod yn glir o waith") ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cafodd y briffordd ei hadfer yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

(4) Pan fydd ymgymerydd—

- (a) wedi cwblhau adferiad parhaol o briffordd;
- (b) wedi symud ymaith—
 - (i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a
 - (ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac
- (c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus,

rhaid i'r ymgymerydd hwnnw hysbysu'r awdurdod priffyrdd fod hyn wedi ei wneud ("hysbysiad o gwblhau gwaith") ddim hwyrach na diwedd y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y cafodd y briffordd ei dychwelyd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

Cyfnod rhagnodedig

6. Mewn perthynas ag ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi, bydd y cyfnod rhagnodedig o dan adran 74(1)(a) o Ddeddf 1991 yn ddau ddiwrnod, gan gychwyn ar y dyddiad y bydd y gwaith yn cychwyn.

Hyd y gwaith

7. At ddibenion y Rheoliadau hyn, ni fydd hyd gwaith stryd ond yn dod i ben pan fydd yr ymgymerydd—

- (a) wedi cwblhau adferiad dros dro, neu adferiad parhaol yn ôl y digwydd, o briffordd;
- (b) wedi symud ymaith—

the actual start of works notice must be given in accordance with paragraph (1) will be the period applicable by virtue of paragraph 16.7 of the Code of Practice for Permits dated June 2009(1), as revised or re-issued from time to time.

(3) When an undertaker has—

- (a) completed interim reinstatement of a highway;
- (b) removed—
 - (i) all signing, lighting and guarding, and
 - (ii) all remaining spoil, unused materials and other plant; and
- (c) returned the highway fully to public use,

that undertaker must give the highway authority notice that this has been done ("works clear notice") not later than the end of the next day following the date on which the highway was returned fully to public use.

(4) When an undertaker has—

- (a) completed permanent reinstatement of a highway;
- (b) removed—
 - (i) all signing, lighting and guarding, and
 - (ii) all remaining spoil, unused materials and other plant; and
- (c) returned the highway fully to public use,

that undertaker must give the highway authority notice that this has been done ("works closed notice") not later than the end of the next day following the date on which the highway was returned fully to public use.

Prescribed period

6. In relation to an undertaker executing street works in a highway to which these Regulations apply, the period prescribed under section 74(1)(a) of the 1991 Act will be two days, starting on the date on which the works begin.

Duration of works

7. For the purposes of these Regulations, the duration of street works will only come to an end when the undertaker has—

- (a) completed interim reinstatement, or as the case may be permanent reinstatement, of a highway;
- (b) removed—

(1) Cyfeiriad y wefan i ddilyn.

(1) Web address to follow.

- (i) pob arwydd, golau ac eitem warchod, a
- (ii) pob rwbel, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl; ac
- (c) wedi adfer y briffordd yn llawn i ddefnydd cyhoeddus.

Taliadau rhagnodedig

8.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (12) a (13), rhaid i ymgymerydd sy'n cyflawni gwaith stryd ar briffordd y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddi dalu i'r awdurdod priffyrdd swm sydd i'w bennu yn unol â pharagraffau (3) i (11).

- (2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—
 - (a) gwaith—
 - (i) mewn stryd nad yw'n sensitif i draffig,
 - (ii) ar droedffordd stryd sydd yn sensitif i draffig ar adeg sydd yn sensitif i draffig, neu
 - (iii) mewn stryd sydd yn sensitif i draffig, ac eithrio ar adeg sydd yn sensitif i draffig,

os nad yw'r gwaith yn golygu dryllio'r stryd neu dwnelu neu dyllu oddi tani;

- (b) gwaith sy'n cynnwys dim ond creu tyllau sy'n llai na 3 centimetr ar eu traws, at ddibenion ymchwiliol;
- (c) ailosod polion, colofnau lamp neu arwyddion yn yr un lleoliad; neu
- (ch) rhoi prawf ar bolion.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (9), bydd y taliad yn swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (4), a bydd yn daladwy am bob diwrnod, neu ran o ddiwrnod, y mae hyd y gwaith yn mynd yn fwy na'r hwyaf o—

- (a) y cyfnod rhagnodedig, neu
- (b) cyfnod rhesymol⁽¹⁾.

(4) O ran gwaith stryd sydd mewn categori a restrir yng ngholofn 3 o Dabl 1, ac sy'n cael ei gyflawni mewn stryd o fath a ddisgrifir yng ngholofn 2 o ran y categori hwnnw, swm y taliad fydd y swm sydd wedi ei nodi yng ngholofn 4.

- (i) all signing, lighting and guarding, and
- (ii) all remaining spoil, unused materials and other plant; and
- (c) returned the highway fully to public use.

Prescribed charges

8.—(1) Subject to paragraphs (2), (12) and (13), an undertaker executing street works in a highway to which these Regulations apply must pay the highway authority a charge to be determined in accordance with paragraphs (3) to (11).

- (2) Paragraph (1) does not apply to—
 - (a) works—
 - (i) in a street which is not a traffic-sensitive street,
 - (ii) in the footway of a traffic-sensitive street at a traffic-sensitive time, or
 - (iii) in a traffic-sensitive street, other than at a traffic-sensitive time,

if the works do not involve breaking up the street or tunnelling or boring under it;

- (b) works consisting only of the creation of holes of less than 3 centimetres in diameter, for investigatory purposes;
- (c) replacing poles, lamp columns or signs in the same location; or
- (d) pole testing.

(3) Subject to paragraphs (5) and (9), the charge will be of an amount calculated in accordance with paragraph (4) and is payable for each day, or part of a day, by which the duration of the works exceeds the longer of—

- (a) the prescribed period, or
- (b) a reasonable period⁽¹⁾.

(4) In relation to street works of a category set out in column 3 of Table 1, executed in a street of a description referred to in column 2 in relation to that category, the amount of the charge will be the amount set out in column 4.

(1) Dylid dehongli "cyfnod rhesymol" yn unol ag adran 74(2) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22).

(1) "A reasonable period" is to be construed in accordance with section 74(2) of the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22).

Tabl 1

1.	2.	3.	4.
<i>Rhif yr Eitem</i>	<i>Disgrifiad o stryd.</i>	<i>Categori o waith stryd.</i>	<i>Swm y taliad (£).</i>
1.	Stryd nad yw'n stryd yng nghategori ffordd 2, 3 neu 4.	Gwaith mawr Gwaith safonol Mân waith Gwaith di-oed	2,500 2,500 500 500
2.	Stryd yng nghategori ffordd 2.	Gwaith mawr Gwaith safonol Mân waith Gwaith di-oed	2,000 2,000 500 500
3.	Stryd yng nghategori ffordd 3 neu 4 sydd yn stryd sy'n sensitif i draffig.	Gwaith mawr Gwaith safonol Mân waith Gwaith di-oed	750 750 250 250
4.	Stryd yng nghategori ffordd 3 neu 4 sydd ddim yn stryd sy'n sensitif i draffig.	Gwaith mawr Gwaith safonol Mân waith Gwaith di-oed	250 250 100 100

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), bydd y taliad o ran gwaith adfer yn daladwy yn unol â pharagraff (3), ond bydd yn cael ei gyfrifo yn unol â pharagraff (4) fel pe bai'r gwaith hwnnw, yn ddarostyngedig i baragraff (7), yn waith stryd o'r un categori â'r gwaith sydd wedi ei nodi ym mharagraff (6).

(6) Y gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (5) yw'r gwaith hwnnw mewn perthynas â'r hwn—

- (a) y methwyd â chydymffurfio â dyletswyddau'r ymgymerydd mewn perthynas ag adferiad; a
- (b) y mae'r awdurdod strydoedd wedi ei gwneud yn ofynnol ar yr ymgymerydd i gyflawni'r gwaith adfer.

(7) Pan fo'r gwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (6) yn waith a oedd, adeg cyflwyno hysbysiad mewn

Table 1

1.	2.	3.	4.
<i>Item No.</i>	<i>Description of street.</i>	<i>Category of street works.</i>	<i>Amount of charge (£)</i>
1.	Street not being a street in road category 2, 3, or 4	Major works Standard works Minor works Immediate works	2,500 2,500 500 500
2.	Street in road category 2.	Major works Standard works Minor works Immediate works	2,000 2,000 500 500
3.	Street in road category 3 or 4, being a traffic-sensitive street.	Major works Standard works Minor works Immediate works	750 750 250 250
4.	Street in road category 3 or 4, not being a traffic-sensitive street.	Major works Standard works Minor works Immediate works	250 250 100 100

(5) Subject to paragraph (9), the charge in relation to remedial works will be payable in accordance with paragraph (3) but will be calculated in accordance with paragraph (4) as if those works were, subject to paragraph (7), street works of the same category as the works set out in paragraph (6).

(6) The works referred to in paragraph (5) are those works in respect of which—

- (a) there has been a failure to comply with the undertaker's duties with respect to reinstatement; and
- (b) the street authority has required the undertaker to carry out the remedial works.

(7) Where the works referred to in paragraph (6) were, at the time notice was given in respect of them

perthynas ag ef o dan adran 54(1), 55(1) neu 57 o Ddeddf 1991, yn waith a oedd yn syrthio i un o'r categorïau sydd wedi eu rhestru yng ngholofn 2 o Dabl 2 at ddibenion Rheoliadau 1992, bydd y gwaith hwn yn cael ei drin, at ddibenion paragraff (5), fel pe bai yn y categori cyfwerth sydd wedi ei restru yng ngholofn 3 o ran y categori hwnnw.

Tabl 2

1.	2.	3.
<i>Rhif yr Eitem</i>	<i>Categori o waith stryd at ddibenion Rheoliadau 1992.</i>	<i>Categori cyfwerth o waith stryd.</i>
1.	Prosiectau mawr	Gwaith mawr
2.	Gwaith safonol	Gwaith safonol
3.	Mân waith	Mân waith
4.	Gwaith brys	Gwaith di-oed
5.	Gwaith argyfwng	Gwaith di-oed

(8) Ym mharagraff (7), mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn eitemau 1 i 4 yng ngholofn 2 o Dabl 2 yr ystyr a roddir iddynt yn rheoliad 2 o Reoliadau 1992.

(9) Bydd y taliad yn daliad sengl o £100 mewn perthynas ag unrhyw waith dan yr amgylchiadau a restrir ym mharagraff (10), os bodlonir gofynion paragraff (11).

(10) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (9) yw—

- (a) bod yr ymgymerydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (c)—
 - (i) wedi cwblhau adferiad dros dro, neu adferiad parhaol yn ôl y digwydd, o briffordd,
 - (ii) wedi gwneud ymdrech i symud pob arwydd, golau ac eitem warchod ymaith, a
 - (iii) wedi symud ymaith pob rwbél, defnyddiau nas defnyddiwyd ac offer arall sydd ar ôl;
- (b) na fuasai hyd y gwaith wedi mynd yn fwy na'r hwyaf o'r cyfnod rhagnodedig neu gyfnod rhesymol, oni bai am baragraff (c); ac
- (c) bod eitem sengl o arwyddo, goleuo neu warchod yn aros ar y briffordd.

(11) Y gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraff (9) yw—

- (a) bod yr awdurdod priffyrdd—

under section 54(1), 55(1) or 57 of the 1991 Act, works which fell into one of the categories set out in column 2 of Table 2 for the purposes of the 1992 Regulations, those works will be treated, for the purposes of paragraph (5), as if they were in the equivalent category set out in column 3 in relation to that category.

Table 2

1.	2.	3.
<i>Item No.</i>	<i>Category of street works for the purposes of the 1992 Regulations.</i>	<i>Equivalent category of street works.</i>
1.	Major projects	Major works
2.	Standard works	Standard works
3.	Minor works	Minor Works
4.	Urgent works	Immediate works
5.	Emergency works	Immediate works

(8) In paragraph (7), the expressions used in items 1 to 4 in column 2 of Table 2 have the meaning given in regulation 2 of the 1992 Regulations.

(9) The charge will consist of a single payment of £100 in respect of any works in the circumstances set out in paragraph (10), if the requirements of paragraph (11) are met.

(10) The circumstances referred to in paragraph (9) are that—

- (a) subject to sub-paragraph (c), the undertaker has—
 - (i) completed interim reinstatement, or as the case may be permanent reinstatement, of a highway,
 - (ii) endeavoured to remove all signing, lighting and guarding, and
 - (iii) removed all remaining spoil, unused materials and other plant;
- (b) but for paragraph (c), the duration of the works would not have exceeded the longer of the prescribed period or a reasonable period; and
- (c) a single item of signing, lighting or guarding remains on the highway.

(11) The requirements referred to in paragraph (9) are that—

- (a) the highway authority has—

- (i) wedi hysbysu'r ymgymerydd o natur a lleoliad yr eitem sengl y cyfeirir ati ym mharagraff (10)(c); a
- (ii) wedi gofyn i'r ymgymerydd ei symud ymaith; a
- (b) bod yr ymgymerydd wedi cydymffurfio â'r cais erbyn diwedd y diwrnod a oedd yn dilyn y dyddiad y derbyniwyd y cais.

(12) Caiff awdurdod priffyrdd ostwng swm taliad, neu hepgor y taliad—

- (a) mewn unrhyw achos neilltuol,
- (b) ym mha bynnag ddsbarthau o achos y byddant yn penderfynu arnynt,
- (c) ym mhob achos,
- (ch) ym mhob achos ar wahân i achos penodol, neu
- (d) ym mhob achos ar wahân i ba bynnag ddsbarth o achos y byddant yn penderfynu arni.

(13) Nid yw taliadau ond yn daladwy mewn perthynas â gwaith stryd pan fo'r awdurdod priffyrdd wedi cyflwyno i'r ymgymerydd, ddim mwy na thri mis ar ôl derbyn hysbysiad o fod yn glir o waith neu hysbysiad o gwblhau gwaith, gyfrif ysgrifenedig sy'n nodi'r taliadau sy'n daladwy.

Amcangyfrifon o hyd gwaith

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), os oes gan ymgymerydd le i gredu y bydd hyd y gwaith yn fwy na'r cyfnod rhagnodedig, rhaid i'r ymgymerydd hwnnw gyflwyno i'r awdurdod priffyrdd hysbysiad sy'n cynnwys amcangyfrif o hyd tebygol y gwaith—

- (a) yn achos gwaith mewn cysylltiad â gosodiad dechreuol cyfarpar yn y stryd yn unol â thrwydded gwaith stryd, ynghyd â'r cais am y drwydded;
- (b) yn achos gwaith (nad yw'n waith argyfwng) ynghyd ag—
 - (i) yr hysbysiad o dan adran 55 o Ddeddf 1991 (hysbysiad o ddyddiad cychwyn), neu
 - (ii) yr hysbysiad o dan baragraff 2(1)(d) o Atodlen 3A i'r Ddeddf honno (hysbysiad o waith arfaethedig)(1); neu
- (c) yn achos gwaith argyfwng, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi i'r gwaith gychwyn.

(2) Cymerir bod yr awdurdod wedi cytuno bod cyfnod yr hyd a gynhwysir mewn hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1) yn un rhesymol oni bai eu bod yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgymerydd, o fewn y cyfnod perthnasol a nodir ym mharagraff (3), i'r perwyl eu bod yn gwrthwynebu'r amcangyfrif.

- (i) informed the undertaker of the identity and location of the single item referred to in paragraph (10)(c); and
- (ii) requested the undertaker to remove it; and
- (b) the undertaker has complied with the request by the end of the next day following the date on which the request was received.

(12) A highway authority may reduce the amount, or waive payment, of a charge—

- (a) in any particular case,
- (b) in such classes of case as they may decide,
- (c) in all cases,
- (d) in all cases other than a particular case, or
- (e) in all cases other than such class of case as they may decide.

(13) Charges are only payable in respect of street works where the highway authority has given the undertaker, not later than three months after receipt of a works clear notice or a works closed notice, an account in writing setting out the charges payable.

Estimates of duration of works

9.—(1) Subject to paragraph (5), if an undertaker has reason to believe that the duration of the works will exceed the prescribed period, that undertaker must give the highway authority notice containing an estimate of their likely duration—

- (a) in the case of works in connection with the initial placing of apparatus in the street in pursuance of a street works licence, together with the application for the licence;
- (b) in the case of works (not being emergency works) together with—
 - (i) the notice under section 55 of the 1991 Act (notice of starting date), or
 - (ii) the notification under paragraph 2(1)(d) of Schedule 3A to that Act (notification of proposed works)(1); or
- (c) in the case of emergency works, as soon as reasonably practicable after the works are begun.

(2) The period of duration contained in a notice given under paragraph (1) will be taken to be agreed by the authority to be reasonable unless they give written notice to the undertaker, within the relevant period set out in paragraph (3), that they object to the estimate.

(1) 1991 p.22. Cafodd Atodlen 3A ei mewnosod gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18), adran 52(2).

(1) 1991 c.22. Schedule 3A was inserted by the Traffic Management Act 2004 (c.18), section 52(2).

(3) Y cyfnod perthnasol y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw—

- (a) 5 niwrnod, yn achos gwaith mawr neu waith safonol, a
- (b) 2 ddiwrnod, yn achos mân waith neu waith dioed,

gan gychwyn ar y dyddiad y mae'r awdurdod yn derbyn yr hysbysiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif.

(4) Rhaid i hysbysiad o wrthwynebiad a gyflwynir gan awdurdod o dan baragraff (2) gynnwys eu hamcangyfrif eu hunain o gyfnod rhesymol ar gyfer hyd y gwaith.

(5) Ni fydd y rheoliad hwn yn gymwys pan fo ymgymerydd yn bwriadu cyflawni gwaith stryd y mae'n rhaid sicrhau trwydded gan Awdurdod Trwyddedau mewn perthynas ag ef.

Amcangyfrifon pellach a diwygiedig o hyd gwaith

10.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), os ymddengys i ymgymerydd fod hyd y gwaith, oherwydd materion nas rhagwelwyd yn flaenorol neu nad oedd modd eu rhagweld yn rhesymol, yn debygol o fynd yn fwy nag—

- (a) y cyfnod rhagnodedig,
- (b) y cyfnod a ddatganwyd yn amcangyfrif blaenorol yr ymgymerydd, neu
- (c) y cyfnod y cytunwyd neu a benderfynwyd o dan adran 74(2) o Ddeddf 1991 ei fod yn gyfnod rhesymol,

rhaid i'r ymgymerydd gyflwyno i'r awdurdod priffyrdd hysbysiad ysgrifenedig sy'n cynnwys amcangyfrif neu amcangyfrif diwygiedig.

(2) Pan fo hysbysiad yn cael ei gyflwyno o dan baragraff (1), bydd unrhyw amcangyfrif, cytundeb neu benderfyniad blaenorol yn peidio â bod yn effeithiol, a chymerir bod yr awdurdod priffyrdd yn cytuno bod y cyfnod sydd wedi ei ddatgan yn yr amcangyfrif newydd yn un rhesymol, oni bai eu bod yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r ymgymerydd, o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (3), eu bod yn gwrthwynebu'r amcangyfrif.

(3) Bydd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yn 2 ddiwrnod, gan gychwyn ar y dyddiad y derbyniodd yr awdurdod yr hysbysiad a oedd yn cynnwys yr amcangyfrif neu amcangyfrif diwygiedig.

(4) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo trwydded i gyflawni gwaith stryd arfaethedig wedi ei ganiatáu gan Awdurdod Trwyddedau.

Cymhwyso taliadau a chadw cyfrifon

11.—(1) Caiff awdurdod priffyrdd lleol ddiwynnu, o daliadau rhagnodedig a dderbynnir oddi wrth ymgymerydd, gostau rhesymol gweithredu'r cynllun y

(3) The relevant period referred to in paragraph (2) is—

- (a) 5 days, in the case of major or standard works, and
- (b) 2 days, in the case of minor or immediate works,

beginning with the date on which the authority receives the notice containing the estimate.

(4) A notice of objection given by an authority under paragraph (2) must contain their own estimate of a reasonable period for the duration of the works.

(5) This regulation will not apply where an undertaker proposes to carry out street works in respect of which a permit must be obtained from a Permit Authority.

Further and revised estimates of duration of works

10.—(1) Subject to paragraph (4), if it appears to an undertaker that, by reason of matters not previously foreseen or reasonably foreseeable, the duration of the works is likely to exceed—

- (a) the prescribed period,
- (b) the period stated in that undertaker's previous estimate, or
- (c) the period previously agreed or determined under section 74(2) of the 1991 Act to be a reasonable period,

the undertaker must give the highway authority written notice containing an estimate or revised estimate.

(2) Where notice is given under paragraph (1), any previous estimate, agreement or determination ceases to have effect and the period stated in the new estimate will be taken to be agreed by the highway authority to be reasonable, unless they give written notice to the undertaker, within the period set out in paragraph (3), that they object to the estimate.

(3) The period referred to in paragraph (2) is 2 days beginning with the date on which the authority received the notice containing the estimate or revised estimate.

(4) This regulation does not apply where a permit to carry out proposed street works has been granted by a Permit Authority.

Application of charges and keeping of accounts

11.—(1) A local highway authority may deduct from prescribed charges received from an undertaker the reasonable costs of operating the scheme under which

telir iddynt oddi tano, a rhaid iddynt gymhwyso'r enillion net at ddiben datblygu neu weithredu polisïau ar gyfer hyrwyddo a hybu cyfleusterau a gwasanaethau cludiant diogel, integredig, effeithlon a darbodus i mewn i'w hardal, allan ohoni ac oddi mewn iddi.

(2) Rhaid i awdurdod priffyrdd lleol gadw cyfrifon o'r symiau a delir o ran taliadau.

Trosedd

12. Mae unrhyw ymgymerydd sydd, heb achos rhesymol, yn methu â chyflwyno unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd, a bydd yn agored, yn dilyn collfarn ddiannod, i ddirwy o ddim mwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.

Ffurflen hysbysu

13.—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn fod ar y ffurflen sydd wedi ei chynnwys yn y Fanyleb Dechnegol, neu fod â'r un effaith â'r ffurflen honno.

(2) Rhaid i hysbysiad gynnwys yn ogystal ba bynnag wybodaeth arall sy'n ofynnol gan y Fanyleb Dechnegol ar gyfer cwblhau'r rhannau o'r ffurflen y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) ac sydd wedi eu nodi yn y ffurflen honno fel rhai sy'n berthnasol i'r hysbysiad.

Y dull o gyflwyno hysbysiad

14.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (5) a (7), pan fo'n ofynnol ar ymgymerydd i gyflwyno hysbysiad i awdurdod priffyrdd yn unol â rheoliad 5, rhaid cyflwyno'r hysbysiad hwnnw drwy—

- (a) ei anfon i'r awdurdod priffyrdd yn ei gyfeiriad priodol drwy ddefnyddio cyfathrebiad electronig yn unol â'r amod sydd wedi ei nodi ym mharagraff (4);
- (b) ei ddanfoni i'r awdurdod hwnnw yn y cyfeiriad hwnnw; neu
- (c) unrhyw ddull arall y cytunir arno rhwng yr ymgymerydd a'r awdurdod.

(2) Pan nad oes gan awdurdod priffyrdd y mae ymgymerydd dan rwymedigaeth i gyflwyno hysbysiad o'r fath iddynt drefniadau ar gyfer derbyn ac ymateb i hysbysiadau yn ystod unrhyw gyfnod rhwng 4.30 pm ac 8.00 am ar y diwrnod dilynol, bydd yr ymgymerydd wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaeth honno os bydd hysbysiad wedi ei gyflwyno erbyn 10.00 y bore ar y diwrnod dilynol hwnnw.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (7), mewn unrhyw achos arall pan fo'n ofynnol ar berson i gyflwyno hysbysiad o dan y Rheoliadau hyn, rhaid cyflwyno hysbysiad o'r fath drwy—

- (a) ei anfon at y person y mae i gael ei gyflwyno iddo yng nghyfeiriad priodol y person drwy ddefnyddio cyfathrebiad electronig yn unol â'r

they are paid and must apply the net proceeds for the purpose of developing or implementing policies for the promotion and encouragement of safe, integrated, efficient and economic transport facilities and services to, from and within their area.

(2) A local highway authority must keep accounts of sums paid by way of charges.

Offence

12. An undertaker who, without reasonable cause, fails to give any notice required by these Regulations commits an offence and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.

Form of notice

13.—(1) Any notice required by these Regulations must be in, or to the like effect as, the form contained in the Technical Specification.

(2) A notice must also include such other information as may be required by the Technical Specification to complete the parts of the form referred to in paragraph (1) which are indicated in that form as being relevant to the notice.

Manner of service of notice

14.—(1) Subject to paragraphs (2), (5) and (7), where an undertaker is required to give notice to a highway authority in accordance with regulation 5, such notice must be given by—

- (a) sending it to the highway authority at its proper address by using an electronic communication in accordance with the condition set out in paragraph (4);
- (b) delivering it to that authority at that address; or
- (c) any other means agreed between the undertaker and the authority.

(2) Where a highway authority to whom an undertaker is obliged to give such notice does not have arrangements for receiving and responding to notices for any period between 4.30 pm and 8.00 am the following day, the undertaker will have complied with that obligation if a notice is served by 10.00 am on that following day.

(3) Subject to paragraphs (5) and (7), in any other case where a person is required to give a notice under these Regulations, such notice will be given by—

- (a) sending it to the person to whom it is to be given at that person's proper address by using an electronic communication in accordance

amod a nodir ym mharagraff (4);

- (b) ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf at y person hwnnw yn y cyfeiriad hwnnw;
- (c) ei ddanfôn i'r person hwnnw;
- (ch) ei adael yng nghyfeiriad priodol y person hwnnw; neu
- (d) unrhyw ddull arall y cytunir arno rhwng y person sy'n ei gyflwyno a'r person y mae i gael ei gyflwyno iddo.

(4) Yr amod y cyfeirir ato ym mharagraffau (1)(a) a (3)(a) yw bod yn rhaid i'r hysbysiad—

- (a) gallu cael ei dderbyn gan y person y'i hanfonir ato;
- (b) bod yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol; ac
- (c) bod ar ffurf sy'n caniatáu i'r hysbysiad gael ei gadw er mwyn cyfeirio ato wedi hynny,

ac at y diben hwn, ystyr "bod yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol" yw bod yr wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad ar gael i'r person i raddau dim llai nag y buasai pe bai'n cael ei chyflwyno drwy hysbysiad ar ffurf brintiedig.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), o 1 Medi 2009 ymlaen a chan gynnwys y dyddiad hwnnw, rhaid i bob hysbysiad y mae'n ofynnol iddo gael ei gyflwyno o dan y Rheoliadau hyn gan awdurdod priffyrdd neu ymgymerydd statudol gael ei gyfnewid rhwng un awdurdod priffyrdd ac un arall, rhwng un ymgymerydd statudol ac un arall, a rhwng awdurdod priffyrdd ac ymgymerydd statudol, drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig yn unol â'r amod sydd wedi ei nodi ym mharagraff (4).

(6) Yn ddarostyngedig i adran 98(2) o Ddeddf 1991 (cyfrifo cyfnodau), pan fo cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio at ddiben cyflwyno hysbysiad, yna, oni phofir i'r gwrthwyneb, ystyrir bod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno ar y diwrnod ac ar yr amser a gofnodir gan yr offer trosglwyddo fel diwrnod ac amser cwblhau'r trosglwyddiad yn foddhaol.

(7) Pan nad oes modd cyflawni cyflwyniad, ar ôl tri ymgais (sydd wedi eu cofnodi'n briodol gan y person sy'n cyflwyno'r hysbysiad) i wneud hynny drwy ddefnyddio un dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig, gellir cyflwyno'r hysbysiad drwy ei gyflwyno i'r person y mae i gael ei gyflwyno iddo drwy unrhyw ddull arall y mae cyfeiriad priodol ar ei gyfer, neu drwy unrhyw un o'r dulliau eraill y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) neu, yn ôl y digwydd, baragraff (3).

(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), at ddibenion y rheoliad hwn, cyfeiriad priodol unrhyw berson y mae hysbysiad i gael ei gyflwyno iddo fydd—

- (a) pan fo'r cyfryw berson—
 - (i) wedi rhoi i'r person sy'n cyflwyno'r

with the condition set out in paragraph (4);

- (b) sending it by first class post to that person at that address;
- (c) delivering it to that person;
- (d) leaving it at that person's proper address; or
- (e) any other means agreed between the person giving it and the person to whom it is to be given.

(4) The condition referred to in paragraphs (1)(a) and (3)(a) is that the notice must be—

- (a) capable of being accessed by the person to whom it is being sent;
- (b) legible in all material respects; and
- (c) in a form which permits the notice to be retained for subsequent reference,

and for this purpose "legible in all material respects" means that the information contained in the notice is available to that person to no lesser extent than it would be if given by means of a notice in printed form.

(5) Subject to paragraph (7), from and including 1 September 2009 all notices required to be given under these Regulations by a highway authority or a statutory undertaker must be exchanged between one highway authority and another, one statutory undertaker and another and between a highway authority and a statutory undertaker by using electronic communications in accordance with the condition set out in paragraph (4).

(6) Subject to section 98(2) of the 1991 Act (reckoning of periods), where an electronic communication is used for the purpose of serving a notice, then, unless the contrary is proved, the notice will be deemed to be given on the day and at the time recorded by the transmitting apparatus as being the day and time of satisfactory completion of transmission.

(7) Where, after three attempts (duly recorded by the person serving the notice) to effect service by using one particular method for transmitting an electronic communication, service cannot be effected, the notice may be given by serving it upon the person to whom it is to be given by any other such method for which there is a proper address, or by any of the other means referred to in paragraph (1) or, as the case may be, paragraph (3).

(8) Subject to paragraph (9), for the purposes of this regulation, the proper address of any person to whom notice is to be given will be—

- (a) where such person—
 - (i) has provided the person giving the notice

hysbysiad gyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig; a

- (ii) heb hysbysu'r ail berson fod y cyfeiriad wedi ei dynnu'n ôl at y diben hwnnw,

y cyfeiriad hwnnw mewn perthynas â'r dull trosglwyddo hwnnw;

- (b) pan fo'r cyfryw berson wedi rhoi i berson sy'n cyflwyno'r hysbysiad gyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o'r fath drwy'r post, y cyfeiriad hwnnw mewn perthynas â gwasanaeth post;
- (c) pan fo'r cyfryw berson wedi rhoi i'r person sy'n cyflwyno'r hysbysiad gyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau o'r fath drwy unrhyw ddull arall, y cyfeiriad hwnnw mewn perthynas â'r dull arall hwnnw; ac
- (ch) fel arall-
- (i) yn achos corff corfforaethol, swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff corfforaethol hwnnw; a
- (ii) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y cyfryw berson.

(9) Caiff person ddarparu gwahanol gyfeiriadau ar gyfer gwahanol hysbysiadau neu wahanol ddsbarthau o hysbysiad.

with an address for service of notices under these Regulations by using a particular method for transmitting an electronic communication; and

- (ii) has not notified the latter that the address is withdrawn for that purpose,

that address in relation to that method of transmission;

- (b) where such person has provided the person giving the notice with an address for postal service of such notices, that address in relation to postal service;
- (c) where such person has provided the person giving the notice with an address for service of such notices by any other means, that address in relation to such other means; and
- (d) otherwise-
- (i) in the case of a body corporate, the registered or principal office of that body corporate; and
- (ii) in any other case, the last known address of such person.

(9) A person may provide different addresses for different notices or different classes of notice.

Ieuan Wyn Jones

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

19 Mai 2009

Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

19 May 2009

©© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£5.50

W482/06/09

ON